



Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Nyrsio y Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol  
Cyfarwyddwyr Cyllid

25 Mehefin 2019

Annwyl Gyfeillion

### **Ynghylch: Egwyddorion Staffio Interim ar gyfer Nyrsys Cleifion Mewnol Pediatreg**

Dros y dau degawd diwethaf, mae'r sail ymchwil ryngwladol sy'n dangos yn ddiamheuaeth fod cael y nifer cywir o nyrsys cofrestredig yn lleihau lefel afiachusrwydd, gwella canlyniadau i gleifion ac yn golygu bod llai o ddiwrnodau gwely wedi tyfu'n sylweddol. Yng Nghymru, rydym yn ymroddedig i sicrhau bod y gweithlu nyrsio yn addas i ddiwallu anghenion amrywiol ein cleifion. Sicrhau bod cleifion yn cael lefelau uchel a diogel o ofal oedd y rheswm pam y cefnogom gyflwyno Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (y Ddeddf) – y ddeddfwriaeth gyntaf o'i math yn Ewrop.

Yn Ffyniant i Bawb, dogfen bolisi gyffredinol Cymru, pwysleisir y "*blynyddoedd cynnar*" fel un o feysydd trawsbynciol â blaenoriaeth y llywodraeth. Yn fwy na hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i gyflawni ei chyfrifoldebau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael ystyriaeth ddyledus a theg yn ein penderfyniadau polisi a deddfwriaethol. Gan nad yw adrannau 25B ac C o'r Ddeddf yn cynnwys gofal plant ar hyn o bryd, mae'n hollbwysig inni symud i ymestyn y Ddeddf i leoliadau pediatreg fel mater o flaenoriaeth. Ceir tystiolaeth glir ynglŷn â'r cysylltiad rhwng iechyd a llesiant plant â'u canlyniadau iechyd a llesiant hirdymor pan fyddant wedi dod yn oedolion. Felly, mae'n bwysicach eto ein bod yn gwneud popeth y gallwn i sicrhau bod y gofal nyrsio a ddarperir i'n plant yn ddiogel ac yn briodol, a rhaid dechrau gyda hanfodion y gweithlu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymestyn Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) i leoliadau eraill, sy'n ddibynol ar ddatblygu'r dulliau cynllunio'r gweithlu seiliedig ar dystiolaeth ofynnol a'r trefniadau dilysu cysylltiedig i'w defnyddio yng ngwasanaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud o dan ffrydiau gwaith penodol o dan Raglen Lefelau Staff Nyrsio Cymru Gyfan. Gan fod mwy o gynnydd wedi'i wneud o ran y gwaith o ddatblygu dull y gweithlu i'w ddefnyddio mewn lleoliadau cleifion mewnol pediatreg, mae'n debygol mai yn y maes hwn y bydd y gyfraith yn cael ei hymestyn yn ddiweddarach yn ystod tymor y llywodraeth hon.

Fel mesur dros dro, i helpu byrddau iechyd i baratoi at ymestyn y gyfraith yn y dyfodol, rwy'n cyhoeddi set o ganllawiau interim i gefnogi'r gwaith o gynllunio lefelau staff nyrsio

mewn gwasanaethau i gleifion mewnol pediatreg (sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn er gwybodaeth). Datblygwyd yr egwyddorion hyn a'u mireinio gan ffrwd waith cleifion mewnol pediatreg y Grŵp Lefelau Staff Nyrsio Cymru Gyfan gyda chymorth swyddogion nyrsio o'm swyddfa innau. Mae hyn yn dilyn cyhoeddi egwyddorion staffio interim tebyg ar gyfer nyrsys ardal ym mis Medi 2017.

Fel yr egwyddorion hynny ar gyfer nyrsys ardal, diben yr egwyddorion staffio interim hyn ydy:

- pennu darlun sylfaenol o'r gweithlu nyrsio pediatreg presennol yn ein wardiau cleifion mewnol pediatreg;
- nodi'r bwlch mewn adnoddau rhwng y sefyllfa bresennol a chydymffurfiaeth lwyr â'r egwyddorion hynny;
- cau'r bwlch dros amser drwy gynyddu cydymffurfiaeth yn raddol i leihau'r effaith ar y system pan fo'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith mewn meysydd cleifion mewnol pediatreg.


Mae'n bwysig egluro nad ydym yn disgwyl i fyrddau iechyd gydymffurfio'n llawn â'r egwyddorion hyn ar unwaith. Rydym wedi gweld newid cadarnhaol yn yr egwyddorion ar gyfer nyrsys ardal dros y 18 mis. Er enghraifft, mae cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn yr egwyddor "*dylai fod gan bob tîm fynediad i o leiaf 15 awr o gymorth gweinyddol yr wythnos*" wedi mynd o 35% ym mis Mawrth 2018 i 59% ym mis Mawrth 2019, gan ddangos cynnydd cyson tuag at gydymffurfiaeth. Mae'r gwaith yn golygu y byddai nyrsio ardal mewn sefyllfa dda pe byddai'r Ddeddf yn cael ei hymestyn i'r maes gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

Mae'r dadansoddiad o'r bylchau cychwynnol mewn gwasanaethau cleifion mewnol pediatreg yn erbyn yr egwyddorion y gweithlu newydd hyn wedi dangos bod amrywiaeth mawr mewn lefelau staffio ledled Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi bod pryderon wedi cael eu mynegi ynglŷn â'r goblygiadau o safbwynt sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni'r egwyddorion hyn ym Mwrdd Gweithredol y GIG ar 22 Mai. Byddwn yn croesawu adborth gan sefydliadau ynglŷn â lefel yr her a wynebir, pan fo'r egwyddorion hyn yn cael eu cymhwyso o ddirif, gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymestyn y gyfraith i gleifion mewnol pediatreg yn ystod tymor y llywodraeth hon.

Gan ddilyn y model a sefydlwyd gan yr egwyddorion interim meddygol a llawfeddygol i oedolion cyn yr egwyddorion interim ar gyfer nyrsys ardal, byddaf yn gofyn am ddatganiadau gan fyrddau iechyd ar gydymffurfiaeth yn erbyn egwyddorion y gweithlu pediatreg ddwywaith y flwyddyn. Er mwyn sicrhau bod digon o amser i'r egwyddorion ddechrau gael effaith ar yr ymarfer, byddaf yn ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio yn ddiweddarach yn yr hydref gyda mwy o fanylion a thempled i'w gwblhau.

Byddwn yn croesawu eich cefnogaeth chithau ar y cyd i'r egwyddorion hyn a'r gwaith tuag at gydymffurfiaeth dros y ddwy flynedd nesaf wrth inni baratoi ar gyfer ymestyn pwy y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddo yn gyfreithiol.

Yn gywir



**Yr Athro Jean White CBE**  
**Prif Swyddog Nyrsio / Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru**

Cc Andrew Goodall

Alan Brace  
Helen Arthur  
Frank Atherton  
Chris Jones  
Jo-Anne Daniels

## **Egwyddorion Staffio Interim ar gyfer Nyrsys Cleifion Mewnol Pediatreg**

1. Dylid defnyddio barn nyrsio broffesiynol wrth benderfynu ar sefydliadau pediatreg.
2. Dylai pob bwrdd iechyd gael protocolau uwchgyfeirio pediatreg yn eu lle ar gyfer cyfnodau lle nodwyd bod nifer y staff yn lleihau.
3. Ar gyfer wardiau cleifion mewnol, ni ddylai'r gyfradd RSCN / RCN fesul claf syrthio'n is na 1:4. Mae hyn gyfystyr â darparu 6 awr o oriau gofal ar gyfartaledd fesul claf fesul diwrnod.
4. Bydd lleiafswm o 2 RSCN / RCN yn cael eu rhoi ar y rhestr ddyletswyddau ar bob adeg, a bydd gan un ohonynt y profiad a'r sgiliau i weithredu fel arweinydd tîm (ni ddylai hyn gynnwys prif nyrs y ward/prif nyrs gwrywaidd/rheolwr)
5. Bydd y brif nyrs/y prif nyrs gwrywaidd/rheolwr y ward yn ychwanegol at hyn.
6. Dylai'r cymysgedd sgiliau ar gyfer pob ward fod yn lleiafswm o 70:30.
7. Dylai o leiaf un nyrs fesul shift ym mhob ardal glinigol (ward/adran) gael ei hyfforddi mewn APLS / EPLS.
8. Dylai prif nyrsys/prif nyrsys gwrywaidd/rheolwyr gael mynediad at gymorth gweinyddol.
9. Dylid defnyddio cyfradd chwyddo o 26.9% wrth gyfrifo'r staff ychwanegol sydd angen eu cynnwys ar restr ddyletswyddau.